Diweddaru'r Ddeddfwriaeth ar Ffonau Symudol

Mae'r gyfraith ar ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru wedi dod yn llymach.

Ers 2003, pan ddaeth yn drosedd benodol i ddefnyddio ffôn symudol i'r dwylo neu ddyfais debyg wrth yrru, mae ffonau symudol wedi datblygu i allu gwneud mwy na gwneud galwadau ffôn neu anfon negeseuon testun yn unig.

Gan fod y mwyafrif o ffonau symudol bellach yn gallu tynnu lluniau a fideos, ffrydio cerddoriaeth a ffilmiau, storio llyfrau a chwarae gemau, mae'r gyfraith wedi'i diweddaru i adlewyrchu hyn.

Bydd y rheoliad diwygiedig yn cynnwys unrhyw ddyfais sy'n gallu cyfathrebu'n rhyngweithiol hyd yn oed os nad yw'r swyddogaeth honno wedi'i galluogi ar y pryd, er enghraifft, am fod y data symudol wedi'i ddiffodd neu os yw'r ddyfais yn y modd hedfan.

Mae'r diffiniad o 'ddefnyddio' ffôn wedi'i ehangu i gynnwys y canlynol:

- **goleuo'r sgrin**
- **gwirio'r amser**
- **gwirio hysbysiadau**
- **datgloi'r ddyfais**
- **gwneud, derbyn neu wrthod galwad dros y ffôn neu ar y rhyngrwyd**
- **anfon, derbyn neu uwchlwytho cynnwys llafar neu ysgrifenedig**
- **anfon, derbyn neu uwchlwytho llun neu fideo**
- **defnyddio camera, fideo neu recordio sain**
- **drafftio unrhyw neges destun**
- **cyrchu unrhyw ddata sydd wedi'i storio megis dogfennau, llyfrau, ffeiliau sain, lluniau, fideos, ffilmiau, rhestri chwarae, nodiadau neu negeseuon**
- **cael mynediad i ap**
- **cael mynediad i'r rhyngrwyd**

YN Y RHIFYN HWN:

Newid y Gyfraith ar Ffonau Symudol
Cadwch lygad am feicwyr modur
Cyllid Newydd ar gyfer Diffibrilwyr
Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru
20mya yn Sir Fynwy
Llysgenhadon Hinsawdd
Newidiadau yn Rheolau'r Ffordd Fawr

Cadwch Lygad am Feicwyr Modur

With Mae Cymru â'i golygfeydd godidog a'i rhwydwaith ffyrdd amrywiol yn denu beicwyr modur o bell ac agos. Yn yr wythnosau nesaf gallwn ddisgwyl gweld llawer mwy o feicwyr modur yn defnyddio'r ffyrdd at ddibenion hamdden neu i gymudo yn ystod y gwanwyn.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, "Er bod ffyrdd Cymru ymysg y rhai mwyaf diogel yn y byd, mae beiciwr modur 50 gwaith yn fwy tebygol o gael ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiad na pherson sy'n teithio mewn car. Felly, mae lleihau nifer y beicwyr modur sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yng Nghymru yn dal yn flaenoriaeth.

"Er mwyn mynd i'r afael â'r risg anghymesur yma, gofynnwn i feicwyr modur reidio'n ofalus tu hwnt ac o fewn y gyfraith bob amser. Gall gyrwyr chwarae eu rhan drwy gymryd mwy o bwyll wrth gadw llygaid allan am yrwyr modur, yn arbennig wrth adael cyffyrdd, newid lôn neu wrth agor eu drysau - efallai na fydd beic modur mor weladwy â cherbydau mwy o faint a gallant fod yn y lle rydych yn bwriadu symud iddo. Dylech edrych yn ofalus yn eich man dall bob amser ac edrych ddwywaith am feiciau modur."

Er bod y mwyafrif llethol o feicwyr modur yn dangos safon da wrth reidio, mae lleiafrif bach yn dewis defnyddio'r ffyrdd mewn ffordd anghyfrifol, gan beri risg diangen iddyn nhw eu hunain ac i ddefnyddwyr eraill. Bydd heddluoedd ledled Cymru yn targedu'r unigolion hyn yn ystod y misoedd nesaf, gan roi neges glir na chaiff ymddygiad reidio gwael na gwrthgymdeithasol eu goddef.

Ychwanegodd Teresa Ciano, "Gall hyd yn oed y beiciwr modur fwyaf profiadol gael budd o gymryd rhan mewn hyfforddiant ar ôl eu prawf neu gael asesiad o'u reidio. Rydym felly yn annog beicwyr modur i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ledled Cymru - nifer ohonynt wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru - er mwyn gwella eu sgiliau reidio a'u gwybodaeth."

"Mae paratoi cyn pob taith yn allweddol i'ch diogelwch ac mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd eich beic modur wedi bod yn y garej dros fisoedd y gaeaf. Archwiliwch eich offer a'ch beic yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod popeth yn gweithio'n iawn, gan dalu sylw arbennig i gyflwr eich teiars, breciau a goleuadau - gallai achub eich bywyd. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr eich bod wedi paratoi'n drylwyr; peidiwch byth â reidio pan fyddwch yn ddig, neu dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau."

Mae partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn rhannu'r un nod – bod trigolion ac ymwelwyr a ddaw i Gymru yn defnyddio'r ffyrdd yn gyfrifol ac yn cyrraedd adref yn ddiogel.

Cyllid Newydd i Gynyddu Mynediad at Ddiffibrilwyr yng Nghymru

Mae'r Gweinidog Iechyd Eluned Morgan wedi cyhoeddi £500,000 ychwanegol i wella mynediad cymunedau at ddiffibrilwyr. Bydd cynyddu nifer y diffibrilwyr mewn lleoliadau cymunedol yn helpu i wella cyfraddau goroesi pobl sy'n dioddef ataliad y galon y tu allan i ysbyty.

Mae siawns rhywun o oroesi ataliad y galon y tu allan i ysbyty yn lleihau 10% bob munud sy'n mynd heibio. Bob blwyddyn yng Nghymru, mae oddeutu 6,000 o bobl yn dioddef ataliad sydyn ar y galon.

Mae'r ymgyrch Achub Bywydau Cymru, sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth, ariannu adnoddau addysgol a hyfforddiant CPR newydd a gwella mynediad y cyhoedd at ddiffibrilwyr.

Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru

Mae Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru yn cydnabod unigolion, grwpiau a sefydliadau sydd wedi gwneud ymrwymiad gwirioneddol i ddio gelwch ar y ffyrdd, a hynny uwchlaw'r hyn a ddisgwylid ganddyn nhw fel arfer.

Bob blwyddyn, mae gweithwyr proffesiynol diogelwch ar y ffyrdd o bob rhan o Gymru yn cael cyfle i enwebu pobl haeddiannol i gael gwobr; rhai sydd wedi dangos arferion diogelwch rhagorol ar y ffyrdd, wedi creu prosiectau arloesol neu wedi gwneud cyfraniad personol i gadw pobl eraill yn ddiogel ar y ffyrdd.

Dywedodd Sue Storch, Is-gadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Hyd yn oed gyda'r heriau enfawr rydym i gyd wedi'u hwynebu dros y ddwy flynedd diwethaf, dyw hynny ddim wedi atal pobl rhag mynd y filltir arall i helpu pobl eraill yn eu cymuned.

"Yn aml, mae gan y bobl hyn ymrwymiadau gwaith eraill, ond maen nhw wedi rhoi'r amser a'r ymdrech i helpu i wneud ffyrdd Cymru yn lle mwy diogel i bawb. I ddangos ein gwerthfawrogiad, mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn falch iawn o allu cyflwyno Gwobr Diogelwch Ffyrdd Cymru i bum enillydd teilwng ynghyd â siec am £100."

Y rhai sy'n derbyn y gwobrau yw:

- **Carol Evans, Hebryngydd Croesfan Ysgol, Ysgol Gynradd Pontrhondda**
- **Pass Wide and Slow, Bro Morgannwg**
- **Christopher Monelle, Hebryngydd Croesfan Ysgol, Casnewydd**
- **Mark Jempson, ADI**
- **Lisa Brock, Hebryngydd Croesfan Ysgol, Llangwm**

Strydoedd Mwy Diogel Wrth i Barthau 20mya Ddod i Sir Fynwy

Dylai strydoedd Sir Fynwy fod hyd yn oed yn fwy diogel wrth i barthau 20mya gael eu cyflwyno gan Gyngor Sir Fynwy'r mis hwn. Bydd y cyntaf o'r prosiectau hyn yn gweld y Fenni, Llan-ffwyst, Magwyr, Gwndy, Cil-y-coed, Porth Sgiwed a Chaerwent i gyd yn gostwng o 30mya y mis hwn fel rhan o ddau brosiect peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Codwyd cynlluniau ar gyfer cyflwyno parthau 20mya peilot ledled Sir Fynwy yng nghyfarfod llawn cyngor Cyngor Sir Fynwy fis Rhagfyr diwethaf. Daw hyn yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog yn 2019 mai 20mya ddylai fod y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer pob ffordd breswyl yng Nghymru.

Cynigir parthau 20mya hefyd ar gyfer Trefynwy a Wyesham, Merthyr Tewdrig, y Dyfawden, Drenewydd Gelli-farch/Mynydd Bach a rhannau o Gas-gwent. Cynigir hefyd y dylid gwneud parth treial 20mya y Bwlwarcau/Thornwell yn barhaol. Mae parthau 20mya Tyndyrn a Rhaglan wedi'u hymestyn am gyfnod pellach o hyd at 18 mis, a chyn diwedd y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w gwneud yn barhaol.

Mae'r cynigion yn rhan allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd a Theithio Llesol drwy anelu at greu diwylliant ar gyfer cyflymder arafach, lleihau nifer a difrifoldeb anafusion ar y ffyrdd, cefnogi dulliau teithio amgen fel cerdded a beicio drwy wneud y ffyrdd yn llai brawychus i ddefnyddwyr cerbydau nad ydynt yn fodurwyr a bod o fudd i les corfforol a meddyliol.

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori ar barthau 20mya arfaethedig pellach yn ddiweddarach yn 2022.

Am fwy o wybodaeth ewch i: Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: cwestiynau cyffredin \| LLYW.CYMRU

Llysgenhadon Hinsawdd yn Canolbwyntio ar Deithio Llesol

Cyfarfu llysgenhadon hinsawdd cymunedol â chynrychiolwyr o Gyngor Torfaen yn ddiweddar drafod cynlluniau i gynyddu teithio llesol yn y fwrdeistref.

Amlinellodd y Swyddog Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd, Pat Bates, yr hyn mae'r cyngor wedi gwneud i wella ffyrdd teithio llesol ers cyflwyno Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, ac amlinellodd gynlluniau'r awdurdod am y pum mlynedd nesaf.

Yn ystod y cyflwyniad, dywedodd Pat Bates: "Ers 2017 mae'r cyngor wedi creu llwybrau cerdded a seiclo newydd, wedi gwella'r llwybrau a oedd yn bod eisoes ac wedi lledu palmentydd ar droetffyrdd prysur at ysgolion.

"Uchelgais ein cynllun tymor hir yw ychwanegu 75 milltir at y rhwydwaith teithio llesol yn Nhorfaen. Bydd hyn yn golygu adeiladwaith newydd ac uwchraddio llwybrau, gan barhau i wella llwybrau gydag ymylon palmant isel i'w gwneud yn gwbl hygyrch, a gweithio gydag ysgolion i ddiweddaru cynlluniau teithio ysgolion i'w gwneud yn gynlluniau teithio llesol i ysgolion.

Newidiadau yn Rheolau'r Ffordd Fawr

Cafodd y rheolau ar gyfer pob defnyddiwr ffordd eu diweddaru yn Rheolau'r Ffordd Fawr o ddydd Sadwrn 29 Ionawr 2022 ymlaen, er mwyn gwella diogelwch pobl sy'n cerdded, yn beicio ac yn marchogaeth.

Mae adran gyflwyno Rheolau'r Ffordd Fawr bellach yn cynnwys tair rheol newydd am 'hierarchaeth newydd defnyddwyr ffyrdd'.

Mae'r hierarchaeth wedi'i chyflwyno i sicrhau mai'r rhai sy'n gallu gwneud y niwed mwyaf sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf i leihau'r perygl y maen nhw'n ei greu i bobl eraill. Nid yw'n dileu'r angen i bawb ymddwyn yn gyfrifol.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n defnyddio'r ffordd:

- **yn ymwybodol o Reolau'r Ffordd Fawr**
- **yn ystyriol tuag at ddefnyddwyr eraill y ffordd**
- **yn deall eu cyfrifoldeb dros ddiogelwch pobl eraill.**

Bydd yna ganllawiau diwygiedig ar bellter a chyflymder pasio diogel i bobl sy'n gyrru neu'n reidio beic modur wrth oddiweddyd defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, gan gynnwys:

- **gadael o leiaf 1½ metr (5 troedfedd) wrth oddiweddyd pobl sy'n beicio ar gyflymder o hyd at 30mya, a gadael mwy o le wrth oddiweddyd ar gyflymder uwch**
- **pasio pobl sy'n marchogaeth ceffylau neu'n gyrru cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau ar gyflymder o lai na 10mya a chaniatáu o leiaf 2 fetr (6½ troedfedd) o le**
- **caniatáu o leiaf 2 fetr (6½ troedfedd) o le a chadw at gyflymder isel wrth basio pobl sy'n cerdded yn y ffordd (er enghraifft, lle nad oes palmant)**
- **aros yn ôl a pheidio â goddiweddyd os nad yw'n ddiogel neu os nad oes modd cadw at y bylchau hyn.**

Mae cyfanswm o 9 adran o Reolau'r Ffordd Fawr wedi'u diweddaru, gyda 50 o reolau'n cael eu hychwanegu neu eu diweddaru.